Ansawdd y Ddarpariaeth ar gyfer

Cymraeg i Oedolion

Mawrth 2004

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg
A Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
For Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

…Rhagoriaeth i bawb… …Excellence for all…

© Hawlfraint y Goron 2004. Gellir atgynhyrchu adroddiad hwn yn ei gyfanrwydd neu'n rhannol i ddibenion anfasnachol cyhyd ag y bo'r holl ddetholiadau a ddyfynnir yn cael eu hatgynhyrchu air am air heb eu cyfaddasu a'u ffynhonnell a'u dyddiad yn cael eu datgan.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW
Ffôn: 029 20 446446
Ffacs: 029 20 446448
www.Estyn.gov.uk.

Cynnwys	Tudalen

1	**Cyflwyniad**	**1**
2	**Prif ganfyddiadau**	**1**
	Trefniadaeth a rheolaeth strategol	2
	Cyllido	2
	Cynllinio a marchnata'r ddarpariaeth	2
	Tueddiadau yn nifer yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg	3
	Safonau cyflawniad ac ansawdd addysgu	3
	Cyfraddau cyrhaeddiad, cwblhau a dilyniant y dysgwyr	3
3	**Trefniadaeth a rheolaeth strategol**	**4**
	Canfyddiadau	4
	Argymellion	5
4	**Cyllido**	**7**
	Canfyddiadau	7
	Argymellion	8
5	**Cynllunio a marchnata'r ddarpariaeth**	**9**
	Canfyddiadau	9
	Argymellion	11
6	**Tueddiadau yn niferoedd yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg**	**12**
	Canfyddiadau	12
	Argymellion	12

7 Safonau cyflawniad ac ansawdd yr addysgu **13**

Canfyddiadau 13

Argymellion 14

8 Cyrhaeddiad **15**

Canfyddiadau 15

Argymellion 15

9 Cwblhau a dilyniant **16**

Canfyddiadau 16

Argymhelliad 16

10 Cynhaliaeth i ddysgwyr **17**

Canfyddiadau 17

Argymellion 18

11 Adnoddau a staffio **19**

Canfyddiadau ar staffio 19

Argymhellion 19

Canfyddiadau ar adnoddau 19

Argymhelliad 19

12 Sylwadau i gloi **20**

1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn glir ei bod hi'n hanfodol bwysig i'r Gymraeg gael ei chynnal yn "iaith gymunedol fyw os yw'r iaith i ffynnu a bod yn llewyrchus" (Iaith Pawb 2002). Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i hyrwyddo a sicrhau twf yn niferoedd siaradwyr Cymraeg ac wedi pennu targed o pum pwynt canran ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn 2011. Er mwyn cyrraedd y targed hwn, mae angen i Gymru sicrhau bod ei darpariaeth Cymraeg i Oedolion yn llwyddo i'r eithaf.

Cynhaliwyd yr arolwg hwn o ansawdd y cyrsiau Cymraeg i Oedolion fel rhan o gylch gorchwyl blynyddol Estyn ar gyfer 2003-4 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r adroddiad yn defnyddio tystiolaeth o adroddiadau arolygiadau ar sefydliadau addysg bellach ac uwch a arolygwyd gennym yn ystod y cyfnod o 1997 hyd heddiw. Yn ystod tymhorau'r haf a'r hydref 2003, yn ychwanegol at gylch arolygiadau Estyn, cynhaliwyd trafodaethau gyda chadeiryddion pob un o'r wyth consortiwm Cymraeg i Oedolion ac ymwelwyd â sampl o ddarparwyr i siarad â staff a dysgwyr.

Mae'r adroddiad yn cynnwys adrannau ar drefniadaeth a rheolaeth strategol y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion, cyllido, cynllunio a marchanta cyrsiau, tueddiadau yn niferoedd yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg, safonau cyflawniad dysgwyr ac ansawdd yr addysgu, cyrhaeddiad dysgwyr, cwblhau a dilyniant, cynhaliaeth i ddysgwyr ac adnoddau. Caiff pob adran ei threfnu o dan ddau isbennawd, un yn crynhoi ein canfyddiadau a'r llall yn rhestru argymhellion ar gyfer gwelliant. Mae'r prif ganfyddiadau ar ddechrau'r adroddiad yn crynhoi ein barnau.

Cafodd trefniadau newydd ar gyfer cynnal y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion ar lefel genedlaethol eu sefydlu yn 2002 pan ddaeth y maes dan adain uned ddwyieithrwydd ELWa. Mae ELWa yn adolygu trefniadaeth a methodoleg gyllido Cymraeg i Oedolion ar hyn o bryd.

2 Prif ganfyddiadau

Trefniadaeth a Rheolaeth Strategol

- Mae gwendidau yn nhrefniadaeth a chynllunio strategol y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion.

- Cafodd y consortia Cymraeg i Oedolion [1] effaith sylweddol pan gawsant eu sefydlu ym 1994. Mi wnaethant arwain at well cyfleoedd i oedolion ddysgu Cymraeg ar draws Cymru gyfan a helpu i greu mwy o gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant i athrawon. Fodd bynnag, er y twf yn y ddarpariaeth a safonau addysgu a dysgu da neu'n well gan mwyaf, nid yw strwythur y consortia bellach yn gweithio'n ddigon da. Yn wreiddiol, sefydlwyd yr wyth consortiwm i gydffinio â'r wyth AALl. Ers ad-drefnu llywodraeth leol, nid yw'r rhesymwaith hwn ar gyfer y trefniant consortia bellach yn bodoli ac nid oes gan y consortia awdurdod a chyllid digonol i fod yn medru cynllunio a rheoli'n effeithiol. Mae'r trefniadau cyllido presennol yn canolbwyntio ar ddarparwyr gan mai y nhw, ac nid y consortia, sy'n derbyn cyllid gan ELWa. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r consortia i sicrhau gwelliannau neu ymestyn y ddarpariaeth ac nid yw'r cydweithrediad rhwng y consortia mor effeithiol ag y gallai fod.

Cyllido

- Mae lefel bresennol y cyllid ar gyfer Cymraeg i Oedolion yn gosod cyfyngiadau sylweddol ar lawer o agweddau ar y ddarpariaeth, gan gynnwys marchnata, twf, staffio a datblygu adnoddau dysgu. O dan y trefniadau cyllido presennol, mae gormod o amrywiaeth yng nghyfran y cyllid sy'n cyrraedd y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion a buddiannau'r dysgwyr.

- Mae amrywiaeth mawr yn lefelau ffïoedd cyrsiau gwahanol ddarparwyr. Mae llawer o ddysgwyr yn nodi bod ffïoedd cyrsiau yn rhwystr i ddysgu Cymraeg.

Cynllunio a marchnata'r ddarpariaeth

- Er bod cyrsiau dwys yn llwyddo'n well i wneud dysgwyr yn rhugl yn y Gymraeg na chyrsiau dernynnol, nid ydynt ar gael bob amser ym mhob ardal yng Nghymru. Mae methu creu dosbarthiadau hyfyw yn nodwedd o rai cyrsiau mewn ardaloedd gwledig lle mae nifer ymrestriadau yn fach. Mae hyn hefyd yn wir mewn perthynas â llawer o gyrsiau ar lefelau uwch gan fod llai o ddysgwyr yn symud yn eu blaenau i'r lefelau uwch o gymharu â'r nifer sy'n ymrestru ar gyrsiau lefel is.

- Mae gan ran fwyaf y darparwyr gysylltiadau da ag asiantaethau a chyrff eraill, fel Cymdeithas y Dysgwyr, Mentrau Iaith a Merched y Wawr. Fodd bynnag, yn aml, nid oes digon o gyfleoedd a chynhaliaeth i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cymuned leol ac yn y gweithle.

[1] Mae'r wyth consortiwm ledled Cymru yn cynnwys cynrychiolwyr o ddarparwyr cyrsiau Cymraeg lleol sy'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod cynllunio a darparu cyrsiau.

- Nid oes digon o flaengaredd yn y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion. Er enghraifft, mae cyfleoedd e-ddysgu yn rhy ychydig.

- Yn gyffredinol, nid yw cyrsiau'n cael eu marchnata'n ddigonol ar gyfer grwpiau targed penodol, fel cyflogwyr a gweithwyr sy'n dod i gysylltiad drwy eu gwaith â siaradwyr Cymraeg, fel yr ifanc a'r oedrannus.

Tueddiadau yn nifer yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg

- Bu twf sylweddol yn nifer yr oedolion yn dysgu'r Gymraeg ar ôl sefydlu'r consortia Cymraeg i Oedolion ym 1994. Gostyngodd y twf hwn yn y blynyddoedd dilynol ond cynyddodd nifer yr ymrestriadau unwaith eto yn 2002-2003 ac ar hyn o bryd mae dros 25,000 wedi ymrestru ar gyrsiau. Ym 1994-5, tua 16,000 yn unig o ddysgwyr oedd wedi ymrestru. Mae'r twf wedi bod yn nodedig ym maes Cymraeg yn y gweithle er bod hyn yn anwastad ar draws Cymru.

Safonau cyflawniad ac ansawdd addysgu

- Ar y cyfan, mae safonau cyflawniad ac ansawdd yr addysgu yn dda neu'n well yn nhri chwarter y darparwyr Cymraeg i Oedolion a arolygwyd gennym yn ystod y cyfnod o 1997 hyd heddiw. Nid oes darpariaeth sydd at ei gilydd yn anfoddhaol.

Cyfraddau cyrhaeddiad, cwblhau a dilyniant y dysgwyr

- Mae rhan fwyaf y dysgwyr amser llawn a rhan-amser (tua 85%) yn cwblhau eu cwrs. Mae cyfraddau cwblhau yn tueddu i fod yn well ar gyrsiau dwys a lefel uwch.

- Nid yw cyfraddau cyrhaeddiad dysgwyr cystal. Dim ond 64% o ddysgwyr amser llawn a 40% o ddysgwyr rhan-amser a enillodd y cymhwyster iddynt ymrestru ar ei gyfer. Fodd bynnag, mae llawer o oedolion am ddysgu Cymraeg heb ennill cymhwyster. Mae gormod o ddysgwyr yn rhoi'r gorau i ddysgu Cymraeg ar ôl cwblhau lefel 1. Nid yw hyn ynddo'i hun yn helpu i greu mwy o siaradwyr rhugl gan fod rhuglder ar lefel 1 yn gyfyngedig.

3 Trefniadaeth a rheolaeth strategol

Canfyddiadau

Mae gwendidau yn nhrefniadaeth a chynllunio strategol y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion. Un rhwystr arwyddocaol fu'r cyfyngiadau amser o ran staff yn uned ELWa i gynnig arweinyddiaeth o ran ymchwilio i farchnadoedd newydd, paratoi adnoddau a sicrhau cyfeiriad strategol cydlynol. Nid yw'r grŵp cynllunio strategol canolog bellach yn cyfarfod.

Cafodd y consortia Cymraeg i Oedolion effaith arwyddocaol pan sefydlwyd hwy ym 1994. Mae adroddiad Estyn ar Gymraeg i Oedolion (Mehefin 2000) yn cyfeirio at 'waith caled a gweledigaeth gyffredin, ewyllys da a brwdfrydedd pawb sy'n gysylltiedig â'r maes…a hynny'n aml mewn amgylchiadau anodd.' Arweiniodd hyn at ystod well o gyfleoedd i oedolion ddysgu Cymraeg a mynd yn eu blaen i gyrsiau lefel uwch. Mae'r consortia hefyd wedi chwarae rhan bwysig yn gwella'r cyfleoedd hyfforddiant sydd ar gael i athrawon dros y blynyddoedd.

Yn wreiddiol, sefydlwyd yr wyth consortiwm i gydffinio â'r wyth AALl. Ers ad-drefnu llywodraeth leol, nid yw'r rhesymwaith hwn ar gyfer trefnu'r consortia bellach yn bodoli ac nid oes gan y consortia ddigon o awdurdod a chyllid ar gyfer cynllunio a rheoli'n effeithiol. Mae'r trefniadau cyllido presennol yn canolbwyntio ar ddarparwyr, gan mai y nhw, ac nid y consortia, sy'n derbyn cyllid gan ELWa. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r consortia i sicrhau gwelliannau neu ymestyn y ddarpariaeth ac nid yw'r cydweithrediad rhwng y consortia bellach mor effeithiol ag y gallai fod.

Mae'r awdurdod i wneud penderfyniadau sydd gan y consortia yn gyfyng ac nid oes ganddynt rôl i sicrhau ansawdd. Yn arbennig, mae'r consortia yn profi anhawster o ran mynd i'r afael â materion ansawdd ar draws y darparwyr sy'n gyd-aelodau yn sgîl sensitifrwydd a thensiynau rhwng darparwyr. Cyfrifioldeb y sefydliadau y mae'r ddarpariaeth yn cael ei chyllido trwyddynt yw sicrhau ansawdd. Mae awdurdodau addysg lleol yn darparu llawer o gyrsiau Cymraeg i Oedolion trwy drefniadau trydydd parti neu ryddfraint gyda cholegau addysg bellach. Yn yr achosion hyn, nid yw'r colegau eu hunain, mewn gwirionedd, yn gyfrifol am gynnal y ddarpariaeth, ond yn derbyn y cyllid ac yn is-gontractio. Ychydig o arbenigedd pwnc sydd gan y colegau i'w galluogi i sicrhau ansawdd, ac o ganlyniad, mae eu rôl yn yr achosion hyn, yn aml, yn un weinyddol yn unig.

Mae cyrsiau'n parhau i gael eu dyblygu ac mae cystadleuaeth nad yw'n gynhyrchiol yn parhau rhwng darparwyr yn ogystal â bylchau yn narpariaeth y consortia, yn enwedig cyrsiau ar lefelau uwch ac mewn ardaloedd gwledig. At ei gilydd, ni wnaed digon i archwilio posibiliadau darparu cyfleoedd e-ddysgu lle mae'r dosbarthiadau traddodiadol heb fod yn hyfyw, a chyflwyno mwy o hyblygrwydd yn y modd y cyflwynir cyrsiau. Mae'r cyfleoedd i ddysgu Cymraeg yn y gweithle yn amrywio'n ormodol ar draws Cymru ac mae'r cynllunio systematig ar gyfer Cymraeg yn y gweithle ac ar gyfer e-ddysgu yn aml wedi bod yn annigonol.

Mae pwyllgorau cynllunio consortia yn grwpiau o gydweithwyr sy'n cystadlu'n erbyn ei gilydd. Yn aml, nid ydynt yn ddigon gwrthrychol a grymus i gynllunio'n effeithiol ar draws yr ardal y maent yn gweithredu ynddi. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd, caiff cyrsiau eu hysbysebu mewn prosbectws cyffredin ar lefel consortiwm cyfan. O ganlyniad, gall y darpar ddysgwr gael trosolwg o'r gwahanol fathau o gyrsiau sydd ar gael yn lleol. Fodd bynnag, mae'r diffyg cydweithrediad rhwng darparwyr ar draws y consortia'n golygu mai dim ond achosion unigol a geir o ddysgwyr yn trosglwyddo rhwng darparwyr er mwyn dilyn cwrs mewn lleoliad arall sy'n fwy addas i'w hanghenion unigol. O ganlyniad, mae rhai dysgwyr naill ai:

- yn gadael gan fod y cwrs yn gofyn gormod ganddynt ac nid ydynt yn gwybod digon am ddewisiadau eraill; neu

- heb fod yn cyflawni eu potensial trwy drosglwyddo i gwrs dwys, pan fo hynny'n briodol, gan na chânt eu hannog i wneud hynny.

Nid yw llawer o gonsortia yn gwneud defnydd effeithiol o ddata ar ddangosyddion perfformiad ar gyfer ymrestriadau, cyfraddau cwblhau a chyrhaeddiad er mwyn nodi mannau ar gyfer gwelliant. Mae cynlluniau strategol y consortia'n cynnwys targedau ar gyfer gwelliannau ymhlith darparwyr. Fodd bynnag, nid yw'r targedau meintiol bob amser yn ddigon heriol, ystyrlon a chyraeddadwy. At ei gilydd, mae cynlluniau strategol y consortia'n methu nodi'r camau nesaf a strategaethau effeithiol i fynd i'r afael ag agweddau ar dan-berfformiad neu lle ceir sgôp sylweddol ar gyfer datblygiad pellach. Yn gyffredinol, cyfyng yw llwyddiant y consortia o ran datblygu dulliau newydd a blaengar o gynyddu niferoedd yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg ac yn dod yn siaradwyr rhugl. Ymhellach, nid yw'r sefydliadau sy'n derbyn cyllid yn cael digon o ddylanwad ar ansawdd cynllunio strategol ar gyfer Cymraeg i Oedolion ar lefel consortiwm. Nid yw'r system bresennol o ddarparu cyllid yn flynyddol trwy'r colegau yn galluogi'r consortia i gynllunio a rheoli'r ddarpariaeth y tu hwnt i'r tymor byr.

Nid yw sefydlu'r Consortia Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant wedi cael llawer o effaith ar resymoli'r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion.

Argymhellion

1. Sicrhau bod adolygiad ELWa o'r strwythur ar gyfer rheolaeth a threfniadaeth Cymraeg i Oedolion ar draws Cymru yn arwain at :

   - bennu swyddogaethau canolog neilltuol mewn perthynas â rheolaeth strategol, cynllunio'r cwricwlwm a sicrhau ansawdd ar lefel genedlaethol;
   - darparu hyfforddiant cydlynol ar gyfer staff;
   - datblygu adnoddau priodol;
   - cynllunio rhaglenni e-ddysgu'n genedlaethol ac yn rhyngwladol; a
   - sefydlu trefniadaeth ranbarthol fwy effeithiol ar gyfer darparu oddi mewn i fframwaith cenedlaethol.

2. Pennu sefydliadau arweiniol ar gyfer y rhanbarthau, a fydd yn meddu ar swyddogaethau mwy grymus mewn perthynas â chynllunio strategol a

gweithredol a sicrhau ansawdd, ynghyd â chylch gorchwyl clir a fydd yn sicrhau mai buddiannau dysgwyr sy'n llywio'r ddarpariaeth. Dylai'r sefydliadau arweiniol hyn ddatblygu polisïau clir ar faterion allweddol, gan gynnwys sicrhau a rheoli ansawdd, marchnata, cyfleoedd cyfartal a chynhaliaeth i ddysgwyr.

3. Sefydlu cysylltiadau cryfach rhwng darparwyr a chyrff perthnasol eraill, fel y Mentrau Iaith a Chymdeithas y Dysgwyr.

4 Cyllido

Canfyddiadau

Mae lefel bresennol y cyllid ar gyfer Cymraeg i Oedolion yn gosod rhwystrau arwyddocaol ar lawer o agweddau ar y ddarpariaeth, gan gynnwys marchnata, twf, staffio a datblygu adnoddau dysgu. O dan y trefniadau cyllido presennol, mae lefel y cyllido ar gyfer Cymraeg i Oedolion yn cymharu'n anffafriol â lefelau cyllid ar gyfer darpariaeth debyg mewn gwledydd eraill fel Gwlad y Basg yng Nghatalonia a'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu Maori yn Seland Newydd. Mae'r pwysoliad o 1.25 i bob uned ddysgu mewn Cymraeg i Oedolion yn sylweddol is na'r pwysoliad presennol o 1.5 i faes rhaglen Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill. Mae'r fethodoleg ar gyfer cyllido Cymraeg i Oedolion yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd.

Yn y gorffennol, ni fu'r lefelau cyllido'n ddigonol i sicrhau ehangu arwyddocaol a gwelliannau sylweddol i'r ddarpariaeth. Mae'n debygol y gallai mwy o bobl ddysgu Cymraeg yn fwy llwyddiannus petai gan y darparwyr y lefelau cyllido sy'n angenrheidiol i:

- gynnig cyrsiau'n rhatach neu'n rhad ac am ddim;
- penodi mwy o athrawon amser llawn; a
- marchnata'r ddarpariaeth yn fwy dwys.

Mewn rhai achosion, mae darparwyr wedi gorfod troi darpar ddysgwyr ymaith oherwydd y cyfyngiad ar faint cyllid twf yn y sefydliadau sy'n eu cyllido.

O dan y trefniadau cyllido presennol, mae gormod o amrywiaeth yng nghyfran y cyllid sy'n cyrraedd y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion a buddiannau'r dysgwyr. Mae hyn oherwydd y gwahaniaethau o ran canran y dosraniad cyllid sy'n cael ei gadw gan y sefydliad a gyllidir a faint o gyllid sydd ar gael ar gyfer twf. Mae hyn wedi cyfyngu ar dwf a datblygiad y ddarpariaeth yn y gorffennol, er bod y cyllid ar gyfer Cymraeg i Oedolion wedi ei gorlannu'n ddiweddar. Mae rhai colegau ac ambell i AALl wedi dyrannu cyllid ychwanegol i gynnal y ddarpariaeth yn eu hardaloedd.

Yn ogystal, mae gormod o amrywiaeth yn y ffïoedd y mae dysgwyr yn eu talu am y ddarpariaeth. Mae rhai cyrsiau yn rhad ac am ddim i ddysgwyr (fel arfer oherwydd cyllid Amcan 1). Mae llawer o'r dysgwyr y buom yn cyfweld â nhw'n nodi ffïoedd fel rhwystr i annog mwy o bobl i ddysgu Cymraeg. O dan y lefelau cyllido presennol, mae mwyafrif y darparwyr yn gorfod dibynnu ar incwm a gesglir o ffïoedd y cyrsiau i dalu eu costau.

Mae'r cylch cyllido blynyddol presennol yn ei gwneud hi'n anodd i ddarparwyr gynllunio y tu hwnt i'r tymor byr.

Argymhellion

1. Cynyddu pwysoliad y cyllid ar gyfer Cymraeg i Oedolion o 1.25 i lefel a fydd yn caniatáu gwelliannau pellgyrhaeddol yn y rhaglen. Byddai'r gwelliannau'n cynnwys penodi mwy o athrawon amser llawn, marchnata cyrsiau yn ddwysach, cytuno ar brospectysau rhanbarthol wedi'u rhesymoli a chynnig cyrsiau'n rhatach.

2. Cyflwyno fformiwla gyllido gyffredin ar gyfer pob darparwr, pa un a ydynt yn golegau, yn gwmnïau preifat neu'n ddarparwyr cymunedol. Byddai'r cynnydd i bwysoliad uwch yn lleddfu colli'r fformiwla gyllido addysg uwch bresennol. Byddai cael un lefel gyllido yn symleiddio gweinyddiaeth gan ddarparwyr ac yn hyrwyddo gwell partneriaethau rhyngddynt.

3. Ymchwilio i gostau gwirioneddol darparu cyrsiau lefel uwch ar gyfer dosbarthiadau llai o faint ac effaith lleoliad gwledig ar y gallu i gynnal dosbarthiadau hyfyw.

4. Pennu isafswm ac uchafswm yn genedlaethol ar gyfer ffïoedd cyrsiau, gyda chyrsiau yn rhad ac am ddim i grwpiau targed. Dylid rhoi ystyriaeth i fanteision darparu cyrsiau am gost dybiannol i holl ddysgwyr Cymraeg i Oedolion.

5. Sybsideiddio cyrsiau mewn ardaloedd gwledig a chyrsiau ar lefelau uwch, lle mae niferoedd bach yn ei gwneud hi'n anodd i gynnal dosbarthiadau hyfyw.

6. Sicrhau adnoddau ariannol digonol i ddiwallu'r galw am ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion.

7. Cyflwyno cylch cyllido a chynllunio tair blynedd i alluogi darparwyr i gynllunio'n fwy effeithiol dros y tymor canolig a hir.

8. Cyfyngu ar swm cyfredol y cyllid y gall sefydliadau ei gadw.

5 Cynlluno a marchnata'r ddarpariaeth

Canfyddiadau

Ar hyn o bryd, mae ELWa a CBAC yn datblygu fframwaith cymwysterau newydd ar gyfer Cymraeg i Oedolion. Mae hwn yn seiliedig ar bum lefel y model a ddatblygwyd gan yr Association of Language Testers in Europe. Dylai'r gwaith hwn symleiddio'r trefniadau presennol a helpu dysgwyr i ddeall lle maen nhw arni o ran dod yn rhugl ac yn hyfedr yn y Gymraeg. Mae gan sefydliadau addysg uwch sy'n ddarparwyr Cymraeg i Oedolion bryderon ynghylch y manylebau ar gyfer y cyrsiau lefel uwch ychwanegol; caiff rhai o'r rhain eu cynnig i ddysgwyr lefel uwch a rhai i siaradwyr Cymraeg mamiaith. Ar hyn o bryd, mae gormod o amrywiaeth o ran mathau a manylebau'r cyrsiau hyn, er eu bod i gyd yn cael eu cyllido fel rhan o'r maes rhaglen Cymraeg i Oedolion.

Cyflawnwyd llawer yn y blynyddoedd diwethaf i wella cyfleoedd i oedolion ddysgu Cymraeg. Ar y cyfan, mae dosbarthiadau Cymraeg ar gael o fewn pellter rhesymol yn lleol yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae amrywiaeth cynyddol o gyrsiau Cymraeg wedi eu darparu i ddiwallu anghenion penodol gwahanol grwpiau o ddysgwyr. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae dewis o ran gwahanol fath o gwrs a chyrsiau ar wahanol adegau o'r dydd. Fodd bynnag, mae yna achosion o hyd lle nad yw'r dysgwyr yn cael y cyfle i ddod yn rhugl yn gyflym gan nad oes cwrs dwys ar gael. Mewn rhai achosion, nid yw'r dysgwyr a'r darparwyr eu hunain yn gwbl ymwybodol o'r opsiynau sydd ar gael yn lleol, mewn perthynas â gwahanol fathau a dwysedd y cyrsiau a gynigir gan ddarparwr arall.

Mewn rhai ardaloedd, mae dysgwyr yn cael y cyfle i ddewis cwrs mwy dwys, er enghraifft, am gyfanswm o 9 awr yr wythnos. Ar y cyrsiau hyn, mae dysgwyr yn profi llwyddiant cynnar, sy'n gymhelliant cryf, ac maent yn gwneud cynnydd da tuag at ddod yn rhugl mewn amser byr. Fodd bynnag, nid yw cyrsiau mor ddwys â hyn ar gael yn gyffredinol. Mewn llawer o ardaloedd, cyfyngir y ddarpariaeth i'r dosbarthiadau traddodiadol unwaith yr wythnos gyda dewis mwy dwys yn cael ei ddarparu gan sefydliad arall. Mewn llawer o achosion, nid oes digon o ddysgwyr ar gael i wneud cyrsiau lefel uwch yn hyfyw. Gall gorfod trosglwyddo i ddarparwr arall i fynychu cyrsiau lefel uwch gyfyngu ar gyfran y dysgwyr sy'n mynd ymlaen i gyrsiau ar y lefelau uwch.

Mae yna le i fwy o flaengaredd o ran y profiadau dysgu sydd ar gael i ddysgwyr, yn enwedig mewn perthynas ag e-ddysgu. Rhy ychydig hefyd yw'r cyfleoedd i ddysgu Cymraeg trwy gyfrwng dosbarthiadau ar destunau o ddiddordeb cyffredinol neu weithgareddau hamdden.

Bu twf nodedig yn nifer y cyrsiau a gynhelir yn y gweithle i gyflogwyr a chyflogeion. Mae Coleg Gwent, yn enwedig, wedi profi llwyddiant sylweddol yn cynyddu nifer yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg. Mae cyflogi cydlynydd ar gyfer darpariaeth yn y gweithle wedi esgor ar ddeilliannau da. Mae cyfanswm y cyrsiau gweithle dros 60 ar hyn o bryd, a hynny mewn ardal lle nad oes ond ychydig iawn o Gymraeg yn cael ei siarad yn y cymunedau. Darperir cyrsiau penodol ar gyfer y sector preifat yn ogystal â sefydliadau'r sector cyhoeddus.

Mae peth amrywiaeth yn llwyddiant y cyrsiau hyn yn gyffredinol. Yn yr arfer orau, caiff cyrsiau eu teilwra i ddiwallu anghenion ieithyddol penodol cyflogwyr a'r gweithle. Mae'r cyrsiau'n fwy llwyddiannus lle ceir blaen-gynllunio effeithiol a chytuno ar y dull gweithredu gyda'r cyflogwr. Yn yr achosion hyn,

- mae'r cyflogwr yn gwbl ymwybodol o'r cychwyn o'i ymrwymiadau a'i gyfrifoldebau;
- mae gan y cyflogai nod clir mewn perthynas â dysgu Cymraeg i'r safon angenrheidiol o fewn cyfnod penodol;
- mae darparwr y cwrs yn adrodd i'r cyflogwr yn rheolaidd ar gynnydd y cyflogai;
- caiff cydweithiwr ei nodi i weithredu fel mentor i'r cyflogai;
- mae'r mentor yn derbyn arweiniad ar sut i gyflawni'r rôl yn llwyddiannus; ac
- mae darparwr y cwrs yn monitro'r gynhaliaeth ddilynol i'r dysgwr gan y cyflogwr.

At ei gilydd, mae angen i ddarparwyr wneud llawer mwy o ran marchnata cyfleoedd i ddysgu Cymraeg. Yn aml iawn, ceir gor-ddibyniaeth ar hysbysebu yn hytrach na marchnata trwy fynd at grwpiau penodol yn uniongyrchol er mwyn:

- codi eu hymwybyddiaeth o'r manteision o ddysgu Cymraeg;
- trafod eu hanghenion ieithyddol penodol mewn perthynas â dwyieithrwydd; a
- chynnig cyrsiau wedi eu teilwra sy'n bodloni eu hamgylchiadau penodol ac yn perthnasu ag amcanion eu Cynlluniau Iaith Gymraeg.

Mae llawer o le mewn nifer o ardaloedd i wneud mwy i dargedu marchnadoedd newydd posib, gan gynnwys:

- cyflogwyr yn y sector preifat a'r rhai sy'n dod i gysylltiad trwy eu gwaith â siaradwyr Cymraeg ifanc ac oedrannus, fel nyrsys a staff canolfannau meddygol a deintyddol;
- rhieni disgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg neu sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith;
- dysgwyr ôl-16 a orffennodd ddysgu Cymraeg ar ddiwedd eu haddysg statudol; a
- chlybiau cymdeithasol a hamdden a mannau cyfarfod cyhoeddus.

Mewn rhai ardaloedd, mae gwirfoddolwyr wedi bod yn mynd o ddrws i ddrws i siarad â phobl sydd newydd symud i mewn i'r ardal ynghylch y cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg a'r manteision o fod yn ddwyieithog. Mae ymgyrchoedd fel hyn wedi profi cryn lwyddiant, a hynny gan eu bod yn fodd o godi ymwybyddiaeth a lleihau unrhyw bryderon neu amheuon mewn perthynas â dysgu Cymraeg.

Argymhellion

1. Parhau i achredu pob cwrs yn y fframwaith CBAC newydd a chyflwyno'r rhaglen ar hyd a lled Cymru. Mae'n bosib bod ffynonellau cyllido addysg uwch yn fwy priodol i rai o'r cyrsiau lefel uwch ychwanegol sydd ar hyn o bryd yn cael eu cyllido fel Cymraeg i Oedolion ond sydd, mewn gwirionedd, wedi eu hanelu at siaradwyr Cymraeg mamiaith.

2. Sicrhau bod opsiwn o gwrs dwys ar gael o fewn pellter teithio rhesymol ym mhob ardal. Lle mae'r niferoedd yn fach, dylid ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio gwahanol fodelau darpariaeth, fel e-ddysgu a hunanastudiaeth gyda chymorth.

3. Gwella'r dull o farchnata'r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion trwy fynd at gyflogwyr yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae angen sicrhau bod darpariaeth o'r fath yn cael ei chynnal yn llwyr gan becynnau cynhaliaeth i ddysgwyr. Dylai'r marchnata gael ei estyn i dargedu grwpiau eraill sy'n cael eu tangynrychioli.

6. Tueddiadau yn niferoedd yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg

Canfyddiadau

Mae'r tabl canlynol yn dangos niferoedd yr oedolion sydd wedi cofrestru ar gyrsiau Cymraeg yn ystod y naw mlynedd rhwng 1994-1995 a 2002-2003.

1994/95	1995/96	1996/97	1997/98	1998/99	1999/00	2000/01	2001/02	2002/03
15894	18966	20762	21643	21500	23634	21011	22160	25324

Bu cynnydd sylweddol mewn ymrestriadau Cymraeg i Oedolion dros y deng mlynedd diwethaf, yn unol â'r twf ym meysydd eraill dysgu cymunedol. Yn ystod y tair blynedd yn dilyn sefydlu'r consortia Cymraeg i Oedolion ym 1994, cynyddodd y niferoedd yn sylweddol o bron 16,000 i dros 21,500. Rhwng 1998 a 2002, parhaodd y niferoedd yn gymharol gyson. Bu cynnydd mawr pellach yn 2002-03.

Mae amrywiaeth mawr rhwng darparwyr unigol o ran tueddiadau ymrestru yn y blynyddoedd diwethaf. Mewn tua 25% o ddarparwyr, ni chafwyd newid sylweddol yn nifereodd ymrestriadau, tra mae'r ymrestriadau wedi lleihau mewn tua 20% o ddarparwyr. Yn ystod yr un cyfnod, mae tua chwarter y darparwyr wedi llwyddo i sicrhau twf sylweddol. Mewn ardaloedd fel Aberdâr, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, yr Wyddgrug a Wrecsam mae nifer yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg yn parhau i fod yn gymharol isel.

Nid oes patrwm clir mewn tueddiadau rhwng darparwyr mewn perthynas â natur ieithyddol neu natur wledig yr ardaloedd a wasanaethir ganddynt. Er enghraifft, yn ne ddwyrain Cymru, mae tri darparwr wedi sicrhau twf sylweddol mewn niferoedd ond ni chafwyd cynnydd na chwymp o ran niferoedd mewn chwe darparwr arall. Mae'n debygol bod nifer o resymau am hyn, a rhai ohonynt y tu hwnt i reolaeth y darparwyr. Fodd bynnag, mae rhai darparwyr wedi bod yn fwy diwyd ac effeithiol nag eraill o ran marchnata darpariaeth a sicrhau twf sylweddol yn narpariaeth cyrsiau penodol ar gyfer cyflogwyr a chyflogeion yn y gweithle.

Argymhellion

1. Gwneud mwy o ddefnydd o ddata cymharol i nodi gwahaniaethau mewn tueddiadau rhwng darparwyr sy'n gwasanaethu ardaloedd tebyg o ran cefndir ieithyddol a gwledigrwydd.

2. Ymchwilio i achosion o arfer dda a dyfeisio strategaethau effeithiol i gynyddu ymrestriadau. Dylai hyn gynnwys targedu grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli a marchnata mwy ymhlith cyflogwyr yn y sectorau cyhoeddus a phreifat.

7. Safonau cyflawniad ac ansawdd yr addysgu

Canfyddiadau

Dros y cyfnod o 1997 hyd heddiw, rydym wedi arolygu'r holl ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion yng Nghymru.

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi ein barnau cyffredinol mewn perthynas â safonau ac ansawdd yr addysgu yn y sefydliadau hyn:

Gradd	Nifer y darparwyr
Gradd 1: da gyda nodweddion eithriadol	5
Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig	18
Gradd 3: nodweddion da yn gorbwyso diffygion	8
Gradd 4: rhai nodweddion da ond diffygion mewn meysydd pwysig	0
Gradd 5: llawer o ddiffygion pwysig	0

Mae safonau ac ansawdd yn uwch na'r trothwy ansawdd ym mhob darparwr a arolygwyd. Mae cyfran uchel o'r gwaith yn dda ac mae cyfran sylweddol yn dda iawn er y ceir rhai diffygion pwysig mewn chwarter y sefydliadau a arolygwyd. Mae hwn yn broffil graddau da ar gyfer y maes rhaglen o'i gymharu â nifer o feysydd eraill addysg bellach.

Y prif nodweddion da y mae adroddiadau arolygu yn eu nodi yw:

- dysgwyr sydd yn aml â lefelau uchel o gymhelliant, brwdfrydedd ac ymroddiad;
- defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng addysgu a chyfathrebu ar lefel briodol mewn dosbarthiadau; a
- dilyniant effeithiol y gweithgareddau dysgu mewn dosbarthiadau.

Mae diffygion cyffredin yn cynnwys:

- dim digon o atgyfnerthu geirfa a strwythurau brawddeg newydd trwy ymarfer dwys;
- dim digon o ddefnydd o ddarpariaeth wedi'i gwahaniaethu i ddarparu ar gyfer gwahanol anghenion a lefelau cynnydd unigolion o fewn yr un dosbarth; a
- rhy ychydig o gyfleoedd i ddysgwyr ymarfer mewn sefyllfaoedd llai strwythuredig yr hyn y maent wedi ei ddysgu.

Mae cyrsiau dwys yn llwyddo'n well na chyrsiau dernynnol neu gyrsiau unwaith yr wythnos o ran cynhyrchu siaradwyr Cymraeg rhugl. Rydym yn barnu safonau cyflawniad ar sail y cynnydd y mae'r dysgwyr yn ei wneud, gan ystyried eu man cychwyn a'r math o gwrs maent yn ei ddilyn. Felly, er y gall arolygwyr farnu bod cyflawniad yn dda mewn darpariaeth ddernynnol, fel rheol, ni allwn ddisgwyl i ddysgwyr wneud cynnydd tuag at ddod yn rhugl ar yr un gyfradd â dysgwyr ar gwrs dwys. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu nad oes gan gyrsiau dernynnol ran bwysig i'w chwarae. Mae'r cyrsiau hun yn angenrheidiol oherwydd eu bod yn:

- cynnig dewis arall i ddysgwyr sydd naill ai'n methu neu'n dewis peidio ag ymroi i ddilyn cwrs dwys;

- galluogi dysgwyr i drosglwyddo i gwrs dwys yn nes ymlaen pan fyddant wedi magu hyder yn eu gallu i ddysgu Cymraeg;

- codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg;

- darparu cyfleoedd gwerth chweil i gymdeithasu, siarad a gwrando mewn amgylchedd Cymraeg.

Gellir tybio y byddai peidio â pharhau i gynnig darpariaeth ddernynnol yn arwain at gwymp sylweddol yn niferoedd yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg.

Mae astudiaethau a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar ddysgu iaith wedi ail-agor y drafodaeth ynghylch caffael iaith a dulliau addysgu[2] ac yn cynnig cyfleoedd pellach i ehangu ar y defnydd o ddulliau arloesol o addysgu Cymraeg i Oedolion.

Argymhellion

1. Rhoi mwy o sylw i ddiwallu anghenion amrywiol dysgwyr yn yr un dosbarthiadau.

2. Rhoi mwy o gyfleoedd i ddysgwyr atgyfnerthu strwythurau brawddegol a geirfa newydd ac ymarfer mewn sefyllfaoedd â llai o strwythur.

3. Cynyddu cyfran y dysgwyr sy'n mynd ymlaen i gyrsiau Cymraeg uwch trwy sefydlu cydweithrediad mwy effeithiol rhwng darparwyr i dargedu marchnadoedd.

4. Annog mwy o ddefnydd o ddulliau blaengar o addysgu iaith.

[2] 'Dulliau dysgu Ail iaith: eu hanes a'u datblygiad', Ioan Talfryn (Popeth Cymraeg 2003). Hefyd 'Dysgu cyfansawdd', R M Jones (CYD 2003)

8. Cyrhaeddiad

Canfyddiadau

Yn 2000-01, cyflawnodd 64% o ddysgwyr amser llawn eu nodau cymhwyster. Mae'r ffigwr ar gyfer cyrsiau rhan-amser dipyn yn is, sef 40%. Mae hyn yn sylweddol is na'r ffigwr ar gyfer 1998-1999 (49%). Gan mwyaf, mae Cymraeg i Oedolion yn ddarpariaeth lle mae dysgwyr yn ddysgwyr rhan-amser.

Mae llawer o oedolion nad ydynt yn dymuno ennill cymhwyster mewn Cymraeg. Mae hyn yn wahanol i lawer o feysydd rhaglen eraill lle mae mwyafrif helaeth y dysgwyr yn ceisio cael cymwysterau er mwyn gwella eu rhagolygon gyrfa. Serch hynny, mae ychydig dros hanner y darparwyr wedi llwyddo i wella cyfraddau cyrhaeddiad y dysgwyr dros y cyfnod 1998-99 i 2000-01 (sef blynyddoedd yr ystadegau diweddaraf).

Argymhelliad

1. Gwella cyfraddau cyrhaeddiad, yn enwedig ymhlith dysgwyr rhan-amser.

9. Cwblhau a dilyniant

Canfyddiadau

At ei gilydd, mae cyfraddau cwblhau yn uwch ar gyrsiau dwys a chyrsiau dernynnol ar y lefelau uwch nag ydynt ar gyrsiau dernynnol yn gyffredinol. Un rheswm am hyn yw bod cymhelliant dysgwyr ar y cyrsiau hyn yn cynyddu'n gynt fel y dônt yn fwy rhugl.

Yn 2000-2001, cwblhaodd 85% o ddysgwyr rhan-amser y cwrs iddynt ymrestru arno. Roedd hyn yn gynnydd bach ar y ffigyrau ar gyfer y ddwy flynedd flaenorol. Cynyddodd y gyfradd gwblhau ar gyfer dysgwyr amser llawn o 70% yn 1998-99 i 84% yn 2000-01. Mae llawer o amrywiaeth rhwng darparwyr o ran cyfraddau cwblhau. Mewn tua 20% o'r darparwyr yn unig yr oedd y cyfraddau cwblhau'r cwrs yn sylweddol uwch na ffigwr Cymru gyfan. Mae'r cyfraddau cwblhau yn dangos gwelliant mewn traean o'r darparwyr yn unig. Mae hyn yn golygu bod lle i wella'n sylweddol ar gyfraddau cwblhau mewn nifer fawr o sefydliadau.

Mae nifer y dysgwyr sy'n mynd ymlaen i gyrsiau lefel uwch fel cyfran o'r rhai a ymrestrodd mewn dosbarthiadau dechreuwyr yn parhau i fod yn isel. Nid yw cyfran uchel o ddysgwyr yn parhau i fynychu cyrsiau Cymraeg ar ôl cwblhau lefel 1. Mae hyn yn destun pryder mawr.

Mae rhai darparwyr wedi profi cryn lwyddiant yn cynyddu niferoedd y dysgwyr sy'n mynd ymlaen i gofrestru ar gyfer cyrsiau ar y lefel nesaf. Mae hyn yn enwedig mewn perthynas â dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau dwys. Mae peth tystiolaeth i ddangos bod dysgwyr yn llai tebygol o symud ymlaen at gwrs ar lefel lefel uwch lle y golyga hyn fod rhaid iddynt drosglwyddo at ddarparwr arall.

Mae gwella cyfraddau cwblhau a dilyniant rhwng lefelau, ac ar gyrsiau lefel uwch yn benodol, yn fater o'r pwys mwyaf y mae angen mynd i'r afael ag ef er mwyn cynyddu cyfran yr oedolion sy'n dod yn rhugl yn y Gymraeg.

Argymhelliad

1. Llunio strategaethau i ddod â gwelliannau sylweddol i gyfraddau cwblhau a dilyniant, fel cynnig darpariaeth fwy unedol.

10. Cynhaliaeth i ddysgwyr

Canfyddiadau

Mae systemau effeithiol ar gyfer darparu gwasanaethau cynhaliaeth i ddysgwyr yn bwysig iawn er mwyn:

- hyrwyddo a chynnal lefelau uchel o gymhelliant a llwyddiant wrth ddysgu'r iaith; a
- darparu'r gynhaliaeth sydd ei hangen ar ddysgwyr i'w helpu i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarthiadau a fynychir ganddynt.

Mae colli dosbarthiadau am ba reswm bynnag yn aml yn arwain at fethu cwblhau cwrs. Mae llawer o ddarparwyr yn gosod disgwyliad ar athrawon i olrhain achosion o absenoldeb a darparu cynhaliaeth ddilynol i helpu'r dysgwyr i beidio disgyn ar ôl gweddill y dosbarth. Mae rhai sefydliadau yn monitro lefelau presenoldeb ar draws ystod y dosbarthiadau ac yn chwilio am batrymau absenoldeb, gan archwilio achosion sy'n peri pryder yn drylwyr. Fodd bynnag, mae angen i lawer o ddarparwyr wneud mwy i sefydlu systemau effeithiol i fonitro a gwella presenoldeb.

Mewn nifer o ardaloedd, mae nifer cynyddol o gysylltiadau rhwng darparwyr a sefydliadau neu asiantaethau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys Mentrau Iaith, Merched y Wawr a Chymdeithas y Dysgwyr (CYD), sy'n trefnu gweithgareddau ac achlysuron cymdeithasol i ddarparu cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ddefnyddio'r iaith a godwyd ganddynt yn y dosbarthiadau. Fodd bynnag, mae gormod o amrywiaeth o ran y cyfleoedd ddysgwyr dderbyn y math hwn o gynhaliaeth. Mewn rhai ardaloedd, mae'r cysylltiadau rhwng darparwyr a CYD yn gyfyngedig, hyd yn oed lle nad oes cymunedau Cymraeg ac mae'r angen ar ei fwyaf. Mae rhai darparwyr yn trefnu siaradwyr gwadd yn rheolaidd i ymweld â dosbarthiadau, fel y gall dysgwyr ymgyfarwyddo â'r gwahanol acenion, goslefau a thafodieithoedd, a dod yn gynyddol gyfforddus wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau llai strwythuredig. Mae niferoedd da o ddysgwyr yn mynychu'r Sadyrnau Siarad ac maent yn gwerthfawrogi'r achlysuron hyn yn fawr.

Mewn rhai ardaloedd, mae partneriaethau effeithiol â'r Mentrau Iaith yn arwain at gyfleoedd a chynhaliaeth amhrisiadwy i ddysgwyr drwy atgyfnerthu eu meistrolaeth ar y Gymraeg a defnyddio'r iaith yn eu cymuned leol. Fodd bynnag, mae llawer o ddysgwyr yn aml yn wynebu anawsterau yn dod o hyd i gyfleoedd i ymarfer y Gymraeg a magu eu hyder mewn sefyllfaoedd dydd i ddydd. Mae'n hynod bwysig i ddarparwyr barhau i fynd i'r afael â'r anawsterau hyn a meddwl am ffyrdd newydd o helpu dysgwyr i integreiddio'n llwyddiannus â siaradwyr Cymraeg. Mae angen i ddarparwyr wneud mwy i helpu dysgwyr yn hyn o beth, er enghraifft, trwy bennu mentoriaid neu gyfaill cyswllt o'r gymuned leol, neu wneud trefniadau ymlaen llaw i fynd â dysgwyr allan o'r dosbarth i ymarfer y Gymraeg, gyda chymorth, mewn sefyllfaoedd go iawn lle na fyddant yn teimlo'n anghyfforddus.

Mae CYD wedi bod yn gweithredu cynllun arloesol yn ardal Aberystwyth, sef y 'Cynllun Pontio'. Mae'r cynllun hwn yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer siarad Cymraeg gyda siaradwyr brodorol. Mae cyfanswm o ryw 100 o wirfoddolwyr yn

ymweld â'r dosbarthiadau ar sail rota i sgwrsio â'r dysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys 20 o ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol uwchradd gyfrwng Cymraeg leol. Mae'r dysgwyr yn elwa'n fawr ar y trefniant hwn. Yn ychwanegol at ymarfer eu Cymraeg, mae'r dysgwyr yn ymgyfarwyddo â siaradwyr Cymraeg sy'n byw neu'n gweithio'n lleol ac yn datblygu perthynas â nhw. Byddai budd mawr o ehangu'r math hwn o drefniant gan ei fod yn cyflawni llawer o ran helpu dysgwyr i 'groesi'r bont' tuag at ddod yn rhugl.

Argymhellion

1. Monitro lefelau presenoldeb yn fwy rheolaidd ac olrhain achosion o ddiffyg presenoldeb yn systematig.

2. Cryfhau partneriaethau rhwng darparwyr a sefydliadau neu grwpiau eraill.

3. Datblygu ffyrdd arloesol o gynyddu lefel y gynhaliaeth i ddysgwyr y tu allan i'r dosbarthiadau Cymraeg.

4. Lledaenu arfer dda'r 'Cynllun Pontio'.

11. Adnoddau a staffio

Canfyddiadau ar staffio

Mae llawer o ddarparwyr yn wynebu anawsterau o ran penodi athrawon, gan nad ydynt yn gallu cynnig swyddi amser llawn a pharhaol, datblygiad gyrfa a buddion, yn cynnwys pensiwn. Mae prinder athrawon, yn enwedig, ar gyfer y cyrsiau lefel uwch. Ar hyn o bryd, mae cyflogau athrawon yn amrywio rhwng sefydliadau. Mae modd i athrawon ennill cymwysterau ym maes Cymraeg i Oedolion, ond mae'r rhain yn amrywio ar draws addysg bellach ac uwch.

Ar hyn o bryd, mae'r darpariaethau Cymraeg i Oedolion yn dibynnu'n ormodol ar staff rhan-amser. Mae canfyddiadau arolygu'n dynodi bod safonau cyflawniad ar eu huchaf lle mae cyfran uchel o staff amser llawn.

Argymhellion

1. Ystyried ffyrdd o benodi mwy o staff amser llawn.

2. Creu rhaglen ddatblygu staff fwy cydlynol.

3. Darparu gwell cyfleoedd dilyniant gyrfaoedd i athrawon.

Canfyddiadau ar adnoddau

Mae gormod o amrywiaeth yn ansawdd yr adnoddau presennol ar draws sefydliadau a bu rhy ychydig o fuddsoddi mewn e-ddysgu. Mae hyn yn golygu na fanteisiwyd yn ddigonol ar y dechnoleg newydd i ehangu cyfranogiad a chynnig dilyniant. Mae ELWa yn ariannu CBAC i ddatblygu llyfrau cwrs newydd i gynnal y fframwaith cymwysterau newydd. Yn ogystal, mae ELWa yn cynllunio i gomisiynu ystod eang o adnoddau eraill ar gyfer Cymraeg i Oedolion.

Argymhelliad

1. Cynyddu buddsoddiad mewn systemau e-ddysgu ac adnoddau addysgu eraill, fel cymhorthion clyw-weledol.

12. Sylwadau i gloi

Mae angen blaengareddau a dulliau arloesol i wella ac ehangu'r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion mewn ffyrdd sy'n diwallu anghenion dysgwyr yn yr 21ain ganrif.

Byddai gweithredu ar sail argymhellion yn yr adroddiad hwn yn gwneud cyfraniad pwysig at gyrraedd targed Llywodraeth Cynulliad Cymru o gynyddu cyfran y siaradwyr Cymraeg o 5 pwynt canran erbyn 2011, fel y'i nodir yn 'Iaith Pawb'.

I sicrhau twf pellach yn niferoedd yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg a chynyddu cyfran y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg, mae angen adolygu'r strwythur presennol yn ei gyfanrwydd mewn perthynas â threfniadaeth, rheolaeth a dulliau cyllido'r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion. Gwella ansawdd cynllunio strategol er mwyn darparu cynhaliaeth gryfach ar lefel genedlaethol a sicrhau darpariaeth sy'n diwallu'r anghenion yn llwyddiannus yn rhanbarthol ar draws Cymru a ddylai fod yn nod gwaelodol yr adolygiad hwn.